

Adroddiad ar Ddilysiad Ieithyddol Mesur y BraichG

Dr Llinos Haf Spencer, Mrs Beryl Ann Cooledge, Mrs Heledd Owen Griffiths, LLAIS

(Gwasanaeth Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer NWORTH), a Mrs Delyth Prys, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor

Mr Karl Jackson a Miss Carys Williams, Gwasanaeth Strôc Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,

Mr Gwilym Siôn ap Gruffudd, Mr Stephen Lansdown a Mrs Cynthia Owen, Cynrychiolwyr y cyhoedd RHOI LLAIS

Dr Stephen Ashford, PhD, FCSP, FACPIN, Uwch Ddarlithydd Clinigol a Ffisiotherapydd Ymgynghorol, Uned Adsefydlu Hyper-aciwt Rhanbarthol, Coleg y Brenin Llundain, Ysbyty Northwick Park ac Uwch Ddarlithydd Clinigol, Canolfan Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymchwil Iechyd Perthynol, Ysbytai Coleg Prifysgol Llundain, Coleg Prifysgol Llundain, Ysbyty Cenedlaethol Niwroleg a Niwrolawdriniaeth

Cyflwyniad

Defnyddir mesurau strôc yn gynyddol yn Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) Cymru i helpu i fonitro statws iechyd cleifion er mwyn trefnu triniaeth. Yng nghyd-destun dwyieithog Cymru, mae angen holiaduron iechyd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Y Gwasanaeth Cefnogi Ymwybyddiaeth Iaith (LLAIS), a leolir yn NWORTH, Prifysgol Bangor, sydd â'r dasg o sicrhau bod fersiynau Cymraeg o fesurau iechyd ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae dilysu mesur i'r Gymraeg yn ieithyddol yn broses hir. Rhaid cael cydraddoldeb o ran ystyr rhwng y Saesneg a'r Gymraeg, a dylai cymariaethau grŵp adlewyrchu gwir wahaniaethau grŵp yn hytrach nag anghysondebau ieithyddol neu ragfarn ddiwylliannol wrth gyfieithu. Roedd y Mesur Gweithgaredd Braich (BraichG/ArmA) (Ashford et al., 2013) yn un o dri mesur Strôc cafodd ei ddilysu'n ieithyddol i'r Gymraeg ar gyfer clinigwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB). Y ddau fesur arall oedd y mesur Gweithgaredd Coesau (CoesG/LegA) (Ashford et al., 2017) a'r Raddfa Effaith Strôc (Stroke Impact Scale). (Duncan et al., 2003).

Nodau ac amcanion dilysu y BraichG i'r Gymraeg

Blaenoriaethu a sefydlu fersiwn Gymraeg o fesur canlyniad y claf y BraichG trwy:

- Ymgymryd â chyfieithu a dilysiad ieithyddol fersiwn Gymraeg o'r mesur BraichG er budd y cyd-destun clinigol yn ogystal ag ymchwil.
- Gwneud y fersiwn Gymraeg o'r mesur Braich G ar gael ar wefan micym.org (Mesarau Iechyd Cymraeg) <http://micym.org/llais/static/index.html>, i gynorthwyo hygyrchedd ar gyfer clinigwyr ac ymchwilwyr.

Canlyniadau

Yn ogystal â chyfieithwyr proffesiynol, terminolegydd iaith, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, rhoddodd saith aelod o gronfa ddata RHOI LLAIS eu barn ar fersiwn o BraichG Cymraeg mewn sesiynau grŵp ffocws i sicrhau eglurder y cwestiynau. Gwnaed newidiadau i'r geiriad yn seiliedig ar y trafodaethau hyn a sylwadau terfynol gan LLAIS a'r terminolegydd iaith. Newidiadau enghreifftiol.

Cwestiwn	Y fersiwn cyn-derfynol o'r BraichG	Cyfieithiad Saesneg	Fersiwn terfynol (Cymraeg)	Cyfieithiad Saesneg	Sylw
Teitl byr – BraichA (Fel ArmA y Saesneg)	BraichA	ArmA	BraichG	ArmG	Mae'r teitl byr BraichG yn fwy cywir achos bod yr 'A' yn y Saesneg yn dynodi 'Activity'. 'Gweithgaredd' yw 'activity' yn Gymraeg, felly mae'r teitl byr 'BraichG' yn fwy cywir. Felly gellir fyrrhau yr enw hir 'Mesur Gweithgaredd Braich' i 'BraichG' yn Gymraeg.
1.	Anhawster gyda cadw cydbwysedd wrth gerdded oherwydd eich braich.	Difficulty with balance when walking due to your arm	Anhawster gyda cadw cydbwysedd / balans wrth gerdded oherwydd eich braich.	Difficulty with balance when walking due to your arm	Derbyn cynnwys y gair 'balans' ar ôl y gair 'cydbwysedd', oherwydd fod y gair 'cydbwysedd' yn air mwy ffurfiol, ac mae pobl yn dueddol o ddweud 'balans' am 'balance' yn yr iaith lafar.
13.	Defnyddio allwedd i agor y drws. Awgrym i ddefnyddio'r gair gogleddol ynghyd a'r gair deheuol am 'key'.	Using a key to open the door.	Defnyddio goriad/allwedd i agor y drws.	Using a key (North Wales term)/key (South Wales term) to open the door.	Derbyniol i ddefnyddio 'goriad' (gair gogleddol am 'key') ac 'allwedd' (gair deheuol am 'key') er mwyn gwneud y frawddeg yn ddealladwy i bawb yng Nghymru.

Casgliad

Er mis Mawrth 2020, mae'r fersiwn Gymraeg o'r Braich G (ArmA) wedi bod ar gael i ymarferwyr ac ymchwilwyr i'w ddefnyddio yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd yr mesur yma o fudd wrth ddylunio triniaeth ar gyfer goroeswyr Strôc Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Mae gwaith dilysu ieithyddol LLAIS yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at sefydlu systemau cadarn i sicrhau cynnal a darparu treialon clinigol o'r ansawdd uchaf sy'n cwrdd â gofynion rheoliadol a llywodraethu wrth hyrwyddo dulliau methodolegol o arwyddocâd rhyngwladol. Hyd yma, mae 46 o fesurau canlyniadau'r claf wedi'u rhestru ar wefan micym.org ac mae tua 43 o'r rhain wedi'u dilysu'n ieithyddol gan LLAIS, Uned Dreialon Gogledd Cymru (NWORTH) gyda chefnogaeth a chyfraniad a werthfawrogi yn fawr gan aelodau cronfa ddata RHOI LLAIS (gweler <https://nworth-ctu.bangor.ac.uk/llais/rhoi-llais.php.cy>

Dull

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddull systematig cam wrth gam o ddilysu fersiwn Gymraeg o'r holiadur Mesur Gweithgaredd Braich (BraichG/ArmA) yn ieithyddol. Caiff y mesur ei ddefnyddio gan Wasanaethau Strôc yn y GIG yng Nghymru a Lloegr (gweler Wild et al., 2005) a hefyd micym.org <http://www.micym.org/llais/static/translations.html> i gael mwy o fanylion am y canllawiau cyfieithu gan gynnwys blaen-gyfieithu ac ôl-gyfieithu, adolygiad consensws a phrofi gwybyddol.



Aelodau RHOI LLAIS (Cynrychiolwyr y Cyhoedd LLAIS) yn rhoi eu barn ar fersiwn Gymraeg o'r BraichG yn ystod y broses ddilysu mewn un o'r Grwpiau Ffocws.



Logo gwefan micym.org



Dilynwch @micymraeg am y wybodaeth diweddaraf am y mesurau iechyd Cymraeg

Cyfeiriadau

Ashford, S., Turner-Stokes, L., Siegert, R. & Slade, M. Initial psychometric evaluation of the Arm Activity Measure (ArmA): A measure of activity in the hemiparetic arm. Clin. Rehabil. 27, 728–740 (2013).

Ashford, S., Jackson, D., Mahaffey, P., Vanderstay, R. & Turner-Stokes, L. Conceptualization and Development of the Leg Activity Measure (LegA) for Patient and Carer Reported Assessment of Activity in the Paretic Leg. Physiother. Res. Int. 22, (2017).

Duncan, P. W., Bode, R. K., Lai, S. M. & Perera, S. Rasch analysis of a new stroke-specific outcome scale: The stroke impact scale. Arch. Phys. Med. Rehabil. 84, 950–963 (2003).

Wild D, Grove A, Martin M, Eremenco S, McElroy S, Verjee-Lorenz A & Erikson P (2005) Principles of good practice for the translation and cultural adaptation process for patient-reported outcomes (PRO) measures: Report of the ISPOR task force for translation and cultural adaptation. Value in Health, 8 (2), 94-104.

Manylion cysylltu:

Mrs Beryl Ann Cooledge
Cyfarwyddwr LLAIS

neu

Dr Llinos Haf Spencer
Swyddog Ymchwil LLAIS

Uned Dreialon NWORTH Trials Unit, Y Wern
Safle'r Normal Site, Prifysgol Bangor University
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ

Ffôn: 01248 383153

E-bost: B.cooledge@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 38 3171

E-bost: L.spencer@bangor.ac.uk